# Penodi Cadeiryddion / Dirprwy Gadeiryddion Grwpiau Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc QAA

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau a phrif gyfrifoldebau Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Grwpiau Ymgynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc, y broses ymgeisio a'r nodweddion a phriodoleddau a gaiff eu hystyried wrth benodi unigolion i'r rolau hyn.

Cyhoeddodd QAA alwad agored am fynegiadau o ddiddordeb ym mis Medi 2025 ar gyfer rolau Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Grwpiau Cynghori a fydd yn adolygu Datganiadau yn y meysydd pwnc canlynol:

- Dieteteg
- Digwyddiadau, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth
- Deunyddiau
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Parafeddygaeth
- Y Gymraeg
- Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

Bydd galwad agored yn dilyn hyn am fynegiadau o ddiddordeb i ymuno â'r Grwpiau Cynghori fel aelodau ym mis Rhagfyr 2025.

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau bod rolau'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn adlewyrchu amrywioldeb y cymunedau pwnc y maent yn eu cynrychioli. Rydym yn cydnabod manteision cadarnhaol cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant. Ein nod yw bod yn wirioneddol gynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas, ac i bawb deimlo eu bod yn cael eu parchu, yn rhydd i fod yn nhw eu hunain, waeth beth yw eu hunaniaeth neu eu cefndir, a'u bod yn gallu rhoi o'u gorau. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau y mae amrywiaeth o ran cefndir, profiadau, safbwyntiau a sgiliau yn eu cynnig ac yn annog ymgeiswyr cymwys yn gryf i wneud cais.

## Disgwyliadau ac ymrwymiad

Mae rolau'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn gofyn am lefel uchel o ymrwymiad i sicrhau bod y Datganiad Meincnod Pwnc (DMP) yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi o fewn amserlen y cytunwyd arni. Bydd gofyn i gadeiryddion gadeirio cyfarfodydd y Grŵp Cynghori a dirprwyo cyfrifoldebau am ysgrifennu adrannau o'r DMP i is-grwpiau o fewn y prif Grŵp Cynghori. Mae profiad o olygu, cyfuno nifer o gyfraniadau i ffurfio un adroddiad, ysgrifennu'n glir ac yn gryno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol, a gweithio o fewn terfynau amser yn elfennau hanfodol o rôl y Cadeirydd.

A fyddech cystal â bwrw golwg ar yr adrannau isod i ddysgu mwy am gyfrifoldebau Cadeiryddion/Dirprwyon, a'r nodweddion a'r priodoleddau y mae QAA yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr llwyddiannus a sut y gellir dangos tystiolaeth ohonynt.

Mae adolygu a chyhoeddi Datganiadau Meincnod Pwnc sy'n bodoli eisoes fel arfer yn cymryd rhwng 15 a 18 mis, a bydd angen i chi wneud ymrwymiad ar gyfer holl gyfnod yr adolygiad.

**Noder na chynigir tâl am rolau Cadeirydd na Dirprwy Gadeirydd ar Grŵp Cynghori QAA. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams.**

## Prif gyfrifoldebau

Bydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd(ion) Grwpiau Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc yn cydweithio'n agos â'r Swyddog Cyswllt QAA[1] sydd wedi'i neilltuo i bob Grŵp Cynghori i ddewis aelodau'r Grŵp a sicrhau cynrychiolaeth eang o ystod o randdeiliaid o bedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Bydd y Cadeirydd yn rheoli pob agwedd ar waith eu Grŵp Cynghori wrth iddynt adolygu ac ysgrifennu'r Datganiad diwygiedig. Bydd y Cadeirydd yn gweithio ochr-yn-ochr â'r Swyddog Cyswllt a'r Cydlynydd QAA dynodedig[2] er mwyn sicrhau bod y Datganiad yn bodloni gofynion QAA ac yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Bydd y Dirprwy Gadeirydd(ion) yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd lle bo angen, a bydd ganddynt gyfrifoldebau penodol am weithrediad y Grŵp Cynghori a gytunir ymlaen llaw gyda'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyswllt, er enghraifft cadeirio is-grwpiau i ysgrifennu adrannau o'r Datganiad.

## Dyddiadau allweddol a cherrig milltir

Dyma'r dyddiadau a'r cerrig milltir allweddol a ragwelir ar gyfer yr adolygiad:

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2025 | Digwyddiadau briffio cadeiryddion |
| Chwefror 2026 | Cyfarfodydd cyntaf y Grŵp Cynghori |
| Chwefror-Gorffennaf 2026 | Cyfnod adolygu a drafftio gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd (misol fel arfer) y Grŵp Cynghori |
| Medi-Tachwedd 2026 | Cyfnod ymgynghori gan gynnwys ymgynghoriad agored â'r gymuned pwnc ac unrhyw un arall sydd â diddordeb |
| Tachwedd 2026-Ionawr 2027 | Dadansoddiad o'r ymatebion ar ôl yr ymgynghoriad ac addasu'r Datganiad |
| Mawrth-Ebrill 2027 | Cyhoeddi Datganiadau diwygiedig |

## Sut i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb

Os hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer rolau Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd, a fyddech cystal â chyflwyno mynegiant o ddiddordeb trwy ein ffurflen ar-lein yn dangos sut

[1] Mae Swyddogion Cyswllt yn aelodau o staff QAA, fel arfer â chefndir academaidd, sy'n gyfarwydd â DMP a chyfeirbwyntiau eraill y sector; bydd ganddynt brofiad o gynnig cymorth i Grwpiau Cynghori DMP trwy gydol cyfnod adolygu'r DMP.
[2] Mae cydlynwyr yn aelodau o dîm gweinyddol QAA sy'n cefnogi gwaith y Cadeirydd a'r Swyddog Cyswllt trwy helpu â rheoli prosiectau a chynnal gwefan SharePoint bwrpasol y Grŵp Cynghori.

rydych chi'n bodloni manyleb y person.  Peidiwch â chyflwyno rhestr o rolau a chyhoeddiadau blaenorol os gwelwch yn dda, ond yn hytrach defnyddiwch y lle sydd ar gael i dynnu allan yr enghreifftiau gorau o dystiolaeth sy'n ategu eich datganiadau ynghylch y nodweddion a'r profiad gofynnol.

Mae fersiwn Word o'r cwestiynau ar gyfer mynegiant o ddiddordeb ar gael ar wefan QAA i'ch helpu wrth baratoi eich cyflwyniad.

Mae croeso i gyrff Proffesiynol, Statudol a Chynrychioladol (PSRB) a Chymdeithasau Pwnc annog ymgeiswyr cymwys i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb. Fodd bynnag, nodwch ei bod yn bosibl y bydd QAA yn ymgysylltu â PSRB, cymdeithasau dysgedig a chymdeithasau pwnc perthnasol yn y broses o lunio rhestr fer ac enwebu, ac o'r herwydd byddem yn gofyn i bob sefydliad osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

**Y dyddiad cau ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb yw canol-dydd, ddydd Gwener 17$^{eg}$ Hydref 2025.**

Os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â [qualityandstandards@qaa.ac.uk](mailto:qualityandstandards@qaa.ac.uk)

## Manyleb y person

| Priodoleddau a phrofiad | Ffynonellau posibl ar gyfer tystiolaeth |
|---|---|
| **Hygrededd academaidd a phedagogaidd o fewn cymuned y pwnc, ynghyd â dealltwriaeth o rôl cyfeirbwyntiau'r sector wrth sicrhau safonau academaidd.** | Arweinyddiaeth o fewn maes disgyblaeth.<br>Cyfraniadau sylweddol at addysgu a dysgu o fewn sefydliad a/neu gymuned disgyblaeth.<br>Cymrodoriaeth Uwch neu Brif Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch, neu Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol<br>Profiad o ddylunio cyrsiau, gan gynnwys defnyddio Datganiadau Meincnod Pwnc, ar gyfer cymeradwyaeth gychwynnol, dilysu/ailddilysu, adolygiad ac achrediad allanol.<br>Profiad fel arholwr allanol neu weithredu fel adolygydd ar gyfer achrediad corff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRB) / cymdeithas ddysgedig ar gyfer rhaglen gradd.<br>Cyfarwydd â phwysigrwydd a'r defnydd o gyfeirbwyntiau'r sector sy'n ymwneud â chynnal safonau academaidd, gan gynnwys fframweithiau credydau a chymwysterau.<br>Profiad blaenorol o feincnodi, yn enwedig ymwneud yn y gorffennol â datblygu Datganiad Meincnod Pwnc QAA neu gyfwerth.<br>Profiad gyda PSRB neu gymdeithasau dysgedig, yn enwedig mewn perthynas â datblygu/gosod neu gymhwyso safonau proffesiynol neu safonau ar gyfer darpariaeth addysg uwch achrededig. |
| **Arweinyddiaeth a phrofiad o brosiectau, grwpiau a/neu bwyllgorau** | Arweinyddiaeth effeithiol grwpiau a phwyllgorau, gan gynnwys gosod agenda, dirprwyo gwaith, crynhoi trafodaethau, datrys gwrthdaro pan fo anghytundeb o fewn grwpiau/pwyllgorau ac annog cyfraniadau gan aelodau tawelach.  Gellid dangos hyn trwy:<br>• Dal swydd gyfrifol o fewn eich sefydliad presennol neu flaenorol.<br>• Aelodaeth o bwyllgorau cyfadrannol neu sefydliadol yn eich sefydliad presennol neu flaenorol, a phrofiad o gadeirio cyfarfodydd.<br>• Cadeirio, neu aelodaeth o, weithgor neu gyfwerth ar ran un o asiantaethau'r sector.<br>• Gwasanaethu fel Cadeirydd neu aelod o bwyllgor cymdeithas ddysgedig berthnasol neu gymdeithas bwnc, neu is-bwyllgor perthnasol o'r sefydliad hwnnw.<br>• Aelodaeth o bwyllgor addysg PSRB gyda chyfrifoldeb am ddatblygu safonau.<br>• Enghreifftiau o ddirprwyo o fewn timau mawr i reoli llwythi gwaith a chyflawni tasgau o fewn terfynau amser. |

| | |
|---|---|
| **Dealltwriaeth o faterion ehangach sy'n effeithio ar y sector a chymunedau pwnc sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, cyflogadwyedd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg** | Gwybodaeth am faterion cyfoes eraill sy'n effeithio ar y sector gan gynnwys:<br>• Ymwneud ag agendâu cydraddoldeb a chynhwysiant, yn ogystal â hyrwyddo amrywioldeb a hygyrchedd mewn perthynas â chorff y myfyrwyr.<br>• Profiad o gyflwyno cynaladwyedd a chyflogadwyedd i'r cwricwlwm a'u heffaith ar gyflogaeth graddedigion o'r ddisgyblaeth yn y dyfodol.<br>• Profiad o gyflwyno technolegau sy'n dod i'r amlwg i'r cwricwlwm, a dealltwriaeth o'u heffaith ar arferion dysgu ac addysgu. |
| **Rheoli prosiect cynhyrchu adroddiadau/dogfennau polisi, gan gynnwys golygu ac ysgrifennu** | Cwblhau prosiectau'n brydlon trwy reoli prosesau a therfynau amser yn effeithlon.<br>Hyder wrth ddefnyddio Microsoft 365 ac offer cydweithio ar-lein cysylltiedig, er enghraifft, Microsoft Teams a SharePoint ar gyfer cyfarfodydd a datblygu dogfennau, gan gynnwys dealltwriaeth o ganiatâd mynediad a rheoli fersiynau.<br>Profiad o olygu adroddiadau a/neu ddogfennau polisi, ac yn benodol cyfuno nifer o gyfraniadau i ffurfio un ddogfen.<br>Y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol.<br>Profiad o reoli a choladu'r cyfan neu ran o gyflwyniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ran adran neu ddarparydd, er enghraifft REF, TEF ac Athena SWAN. |

Cyhoeddwyd - Medi 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk